SCOURFIELD, neu PHILIPPS, Syr JOHN HENRY (1808 - 1876), awdur

Enw: John Henry Scourfield
Dyddiad geni: 1808
Dyddiad marw: 1876
Priod: Augusta Lort Scourfield (née Philipps)
Rhiant: Elizabeth Anne Philipps (née Scourfield)
Rhiant: Owen Philipps
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: awdur
Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: William Llewelyn Davies

Ganwyd yn 1808, mab Owen Philipps, Williamston, gerllaw Neyland, Sir Benfro, a'i wraig Elizabeth Anne Scourfield, Moat, Sir Benfro. Cafodd ei addysg yn ysgol Harrow a Choleg Oriel, Rhydychen. Bu'n siryf Sir Benfro, 1833, yn aelod seneddol dros Hwlffordd, 1852-68, a thros sir Benfro, 1868-76. Priodod, 1845, Augusta Lort Philipps, Lawrenny, Sir Benfro, a bu iddynt ddau fab. Pan etifeddodd, 1862, stad ei ewythr o ochr ei fam, William Henry Scourfield, Moat a Robeston Hall, cymerth ei gyfenw a'i arfau hefyd. Gwnaethpwyd ef yn farwnig gan Disraeli, 18 Chwefror 1876, eithr bu farw ar 3 Mehefin y flwyddyn honno. Ceir rhestr o weithiau Scourfield yn *Journal of the Welsh Bibliographical Society*, iii, 37-8. Y cyntaf ydyw *Dies Landoveriensis*, c. 1847, yn dychanu ysgol newydd Llanymddyfri. Yna daw *Lyrics and Philippics*, 1859 (arg. arall yn 1864 ac un wedi hynny), *The Grand Serio-Comic Opera of Lord Bateman and his Sophia*, 1863 (arg. arall yn 1865), a *The Mayor's Tale: A Tragic and a Diabolic Opera. By J.H.S., late J.H.P.* (heb ddyddiad, eithr ni all fod cyn 1862). Er mai yn Saesneg yr ysgrifennai Scourfield, y mae i lawer o'i ganeuon ddiddordeb Cymreig.

Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Ffynonellau

H. M. Vaughan, 'Sir John Henry Scourfield, Baronet, and his writings,' yn *Journal of the Welsh Bibliographical Society*, iii, 33-8

NLW MSS 4741-9

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: "Syr John Scourfield

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q6257135

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu